Cymorth i ddioddefwyr llifogydd sy'n rhentu eu cartref

Os ydych chi'n rhentu'ch cartref ac mae wedi'i ddifrodi gan lifogydd, efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth neu wybodaeth arnoch ynglŷn â sut a phryd yr atgyweirir eich cartref.

Fel tenant mae gennych yr hawl i gael eich llety wedi'i gadw mewn cyflwr rhesymol.

Os caiff eich cartref ei ddifrodi gan lifogydd, mae eich landlord yn gyfrifol am atgyweirio'r difrod. Mae hyn yn cynnwys difrod i adeiledd eich cartref. Mae hefyd yn cynnwys cadw'r gosodiadau ar gyfer cyflenwadau dŵr, nwy, trydan a gwres mewn cyflwr da.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich landlord am unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen o ganlyniad i lifogydd cyn gynted ag sy'n bosibl. Rhaid i'ch landlord wedyn gyflawni'r atgyweiriadau o fewn cyfnod amser rhesymol.

Os oes difrod mawr wedi bod, efallai y bydd yn rhaid i chi adael eich cartref tra bydd y gwaith yn cael ei gyflawni. Ond bydd yn rhaid i chi symud allan dim ond os ydyw'n amhosibl i chi barhau i fyw yno. Os allwch chi symud o ystafell i ystafell tra bydd y gwaith yn cael ei gyflawni, yna ni fydd yn rhaid i chi adael. Mae'r landlord yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am eich gwarchod chi a'ch eiddo yn ystod yr amser hwn.

Os ydyw'ch cartref wedi'i ddifrodi cymaint nes bod rhaid i chi symud allan, nid oes rhaid i'ch landlord ddarparu lle arall i chi fynd iddo.

Rhaid i chi ddweud wrth eich landlord os oes rhaid i chi symud allan. Os yn bosibl, ddylech chi ddim symud hyd nes:

- eich bod yn fodlon fod eich landlord yn gwybod pam eich bod yn gadael
- bod eich landlord wedi cadarnhau y byddwch yn gallu symud yn ôl i mewn unwaith y bydd yr atgyweiriadau wedi'u cwblhau a byw yno ar yr un sail ag o'r blaen
- bod eich landlord wedi rhoi amcangyfrif i chi o ba mor hir y bydd yr atgyweiriadau yn debygol o gymryd.

Os oes rhaid i chi symud allan, fe ddylech chi geisio dod i gytundeb gyda'ch landlord ynglŷn â thalu rhent. Fe ddylech chi ofyn i'ch landlord am naill ai atal y taliadau rhent ar y cartref yr ydych wedi symud allan ohono, neu, i dalu costau rhesymol am lety amgen.

Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai oherwydd eich bod yn gallu cael budd-dal i dalu rhent ar un eiddo yn unig, nid dau. Bydd angen i'ch cyngor lleol benderfynu os gellir parhau i dalu budd-dal am y cartref yr ydych wedi symud allan ohono neu am eich llety amgen.

Mae hon yn sefyllfa gymhleth ac fe ddylech gael cyngor oddi wrth ymgynghorydd profiadol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os na ddaw'ch landlord i gytundeb gyda chi ynglŷn â thalu rhent, efallai y bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys. Fe allwch ofyn i'r llys am roi gorchymyn i'ch landlord i roi gostyngiad i chi yn y rhent am y cyfnod yr oeddech yn methu byw yn eich cartref. Bydd swm y gostyngiad a ddyfernir gan y llys yn dibynnu ar ba mor wael oedd y difrod i'ch cartref. Fe allwch chi hefyd ofyn i'r llys am ddyfarnu iawndal i chi am bethau megis anghyfleustra a thrallod.

Os na allwch chi barhau i fyw yn eich cartref oherwydd difrod llifogydd ac nid ydych wedi llwyddo i ddod o hyd i lety amgen, fe ddylech chi ofyn i adran digartrefedd eich cyngor lleol am gymorth. Gan fod hyn yn argyfwng, fe fydd ganddyn nhw mwy na thebyg gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu llety addas dros dro i chi a'ch teulu.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Adfeiliad mewn llety a rentir
- Dod o hyd i lety
- Cymorth gyda'ch rhent- Budd-dal Tai
- Rhentu oddi wrth landlord tai cymdeithasol
- Tenantiaethau Sector Preifat
- Llysoedd barn

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Gorffennaf 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr